# Clwstwr Ysgol Calon Cymru

**Cynllun Parhad Dysgu Clwstwr Calon Cymru**

*'Ein pwrpas cyfrannol wrth ofalu am ein plant i gyd, boed hynny yn y ganolfan gofal plant neu wrth weithredu rhaglenni e-ddysgu ar gyfer ein myfyrwyr sy'n gweithio adref yw gwneud gwahaniaeth go iawn ac mae'n anrhydedd mawr bod yn rhan o hyn. Mae Staff ar draws ein clwstwr wedi mynd y tu hwnt i gefmogi ein plant a'i gilydd, ac yn feunyddiol dod o hyd i ffyrdd newydd  i oresgyn problemau dysgu o bell a chadw ein plant yn ddiogel a'n cymunedau'n gysylltiedig.'*

*'… credwn mai'r peth pwysicaf yn y cyfnod hwn o newid a tharfu na welwyd ei debyg yw diogelwch a lles ein plant a'n gweithlu, a gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles corfforol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc drwy gydol y cyfnod hwn.'*

*Cadw'n ddiogel, Dal ati i Ddysgu, LlywCymru, Ebrill 2020*

**Egwyddorion canllaw allweddol**

- Rhoi cymorth llawn i ddisgyblion, staff a rhieni'n unol â'r Polisi Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu https://gov.wales/stay-safe-stay-learning a chanllaw gan ddogfennau "Dysgu o Bell" ERW.
- Yn ystod y cau oherwydd COVID 19, prif ffocws Cynllun Parhau i Ddysgu Clwstwr Calon yw **llesiant plant, staff a theuluoedd**.
- Bydd y Cynllun Parhau i Ddysgu'n sicrhau bod ein plant yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod hwn.
- Bydd pob ysgol yn sicrhau bod rhieni a disgyblion yn gwbl ymwybodol o'r modd i gyfathrebu gyda staff e.e. cyfeiriadau e-byst.
- Does dim disgwyl y bydd modd ail-greu amserlen arferol yr ysgol yn y cartref.
- Cefnogir teuluoedd heb y gallu i ddefnyddio TG trwy gyfrwng cynllun benthyg caledwedd.
- Awgrym, nid disgwyliad, yw pob gweithgaredd a thasg a rennir, er mwyn lleihau'r pwysau ar ein teuluoedd yn ystod y cyfnod hwn.
- Gosodir tasgau ystyrlon gan bob ysgol, fydd yn cyfateb i ddim mwy na 2-3 awr y dydd. Bydd hyn yn llai ar gyfer plant iau.
- Er mwyn sicrhau cydbwysedd ystyrlon rhwng addysgu ar-lein ystyrlon a thasgau ymarferol sy'n ysgogi, ymrwymo a hyrwyddo gweithgareddau corfforol. Felly, bydd rhai tasgau'n ymwneud â'r defnydd o TG, fel HWB ond nid pob tasg.
- B ydd pob ysgol yn awgrymu gweithgareddau ar gyfer eu disgyblion, a gellir cwblhau nifer ohonynt ar eu pennau eu hunain. Bydd hyn yn meithrin annibynniaeth. Rydym yn sylweddoli bod nifer o rieni eu hunain yn gweithio o'r cartref ac yn methu cynorthwyo am gyfnodau hir o amser.
- Rhaid i'r tasgau gwaith fod yn addas i oed a gallu'r plant. Bydd pob un o staff yr ysgol yn defnyddio eeu gwybodaeth a dealltwriaeth am y carfanau er mwyn sicrhau hyn.

- Ni ddisgwylir gwersi fideo byw. Ond, efallai y bydd staff yn dymuno defnyddio'r swyddogaeth clywedol ar 'teams' er mwyn gwirio.
- Rhaid i'r staff i gyd lynu at y polisi ar gyfer defnydd diogel o'r rhyngrwyd, er mwyn eu diogelu hwy a'r disgyblion bob amser.
- Bydd y staff yn rhoi peth adborth fel sy'n briodol trwy ddefnyddio'r cyfrwng a sefydlwyd gan bob ysgol.
- Er mwyn cefnogi disgyblion, rhieni, a staff yn ystod trefniadau pontio a hefyd wrth bontio nôl i amgylchedd yr ysgol.
- Mae'r clwstwr yn cydnabod yr adeg ddigynsail hon a bydd staff yn ymdrechu eu gorau i gefnogi dysgu'r disgyblion ond yn sylweddoli y gellir cael rhai heriau ar y daith a, felly, gall y cynllun parhau fod yn destun newid.

**Tasgau ar gyfer Ysgolion Cynradd**

- Llesiant
- Llythrennedd  Saesneg / Cymraeg / Cymraeg Ail Iaith)
- Rhifedd
- Gwyddoniaeth
- Creadigol
- Heriau
- Gweithgaredd Awyr Agored

**Tasgau ar gyfer disgyblion uwchradd**

- Mae disgyblion Ysgol Calon Cymru'n cwblhau amrywiaeth eang o weithgareddau dysgu. Ceir adnoddau ar gyfer disgyblion CA3 ar ardaloedd dynodedig gwefan yr ysgol. Dyluniwyd yradnoddau i helpu ein disgyblion i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol, cryfhau eu  sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol, a rhoi cyfle iddynt archwilio rhai ffyrdd dysgu newydd a dengar.
- Ar gyfer disgyblion CA4, rydym yn parhau i osod gwaith ar ardaloedd dysgu CA4 gwefan yr ysgol. Dyluniwyd yr adnoddau i gyd i gyfnerthu dysgu blaenorol, helpu ein disgyblion i ddatblygu sgiliau newydd a chyflwyno cynnwys cwrs newydd mewn modd cefnogol.
- Ar gyfer CA5 mae athrawon wedi gosod gwaith, a byddant yn parhau i osod gwaith, trwy gyfrwng e-bost. Hefyd, ar ardaloedd Blwyddyn 12 a 13 gwefan yr ysgol, ceir amrediad o ddolenni i adnoddau fydd yn cefnogi disgyblion yn eu hastudiaethau yn y cartref.
- Mae pob ysgol yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod trefniadau pontio ar gael i gefnogi dysgwyr.

**Disgwyliadau ar gyfer dysgu parhaol yn yr Hwb**

- Bydd staff yn hyrwyddo a chefnogi dysgu ond ni fyddant yn dysgu gwersi ffurfiol.

**Asesiad**
Bydd y clwstwr yn rhannu'r canllawiau a rannwyd gan ERW.

*Dylai ffocws yr asesiad yn ystod dysgu o bell fod ar asesiad ffurfiannol a rhoi adborth i ddysgwyr. Nid yw'n briodol ar yr adeg hon o ataliad y Cwricwlwm Cenedlaethol i ysgolion ddefnyddio asesiadau crynodol er mwyn tracio cynnydd disgybl unigol yn erbyn targedau. Nid oes disgwyl i ysgolion fonitro cynnydd eu dysgwyr fel y byddent dan amgylchiadau arferol.  Nod dysgu o bell yw sicrhau bod y*

| | |
|---|---|
| | *dysgwyr yn parhau i ddysgu, ond nid trwy geisio ail-greu amodau a gweithdrefnau arferol yr ystafell ddosbarth yn y cartref. Dylai ysgolion gadw pethau'n syml o safbwynt y tasgau a rhannu adborth gyda'r dysgwyr. Mae'n bwysig cydbwyso'r angen i sicrhau parhad eu haddysg gyda'u hiechyd a llesiant.* |